

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

DYDD LLUN, 24 EBRILL 2017

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: M. Gravell (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

M. Bull, Rheolwr y Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol;
C. Owen, Cynorthwydd Adfywio Cymunedol;
S. Sauro, Cynorthwydd Adfywio Cymunedol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

- 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.
- 2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR YR 5ED EBRILL 2017.**
PENDERFYNWDYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5^{ed} Ebrill, 2017 yn gofnod cywir.
- 3. CYMORTH ARIANNOL O'R GRONFA GRANT GANLYNOL: GRANT CRONFA'R DEGWM.**

PENDERFYNWDYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:

<u>Ymgeisydd</u>	<u>Dyfarniad</u>
Neuadd Les Pen-y-banc	£3,000.00
Bowlio Tref Rhydaman	£1,702.19
Eglwys yr Annibynwyr Talacharn	£3,000.00
Canolfan Gymunedol Llangadog	£3,000.00
Neuadd Gyhoeddus ac Institiwt Brynaman	£3,000.00
Cymdeithas Parc Cyngor Cymuned Pontyberem	£3,000.00
Eglwys y Plwyf, Llandybïe	£3,000.00
Canolfan Gymdeithasol Alma	£3,000.00
Prosiect Datblygu Tir Parc Llwyn Ty Gwyn	£3,000.00
Gŵyl Gerdd Llandeilo Fawr	£3,000.00

- 4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**
PENDERFYNWDYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.
- 5. CRONFA DATBLYGU EIDDO MASNACHOL SIR GAERFYRDDIN- DOLAWEN CYF.**
Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWDYD**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr

adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gais gan Dolawen Cyf am grant tuag at adnewyddu hen weithdy yn Heol y Ffowndri, Rhydaman er mwyn datblygu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Rhostio Coffi arbenigol. Byddai'r prosiect yn darparu 13 swydd yn ogystal â chreu 426 metr sgwâr o le cyflogaeth.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am grant o'r Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-

Yr Ymgeisydd/Eiddo

Y Dyfarniad

Dolawen Cyf / Heol y Ffowndri, Rhydaman

£194,710.05 [uchafswm]

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD